Adroddiad i'r: Cyngor Llawn

Dyddiad y cyfarfod 18 Mai 2021

Aelod /Swyddog Arweiniol Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts

Awdur yr Adroddiad Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol:

Teitl Adolygiad o rôl Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant,

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Gadawodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Phlant ei swydd ar 2 Awst 2020. Cwblhawyd adolygiad o'r rôl ym mis Ionawr 2021 a bryd hynny cytunwyd mewn egwyddor i gadw un gwasanaeth ond recriwtio dau Bennaeth Gwasanaeth, un gydag arbenigedd ym maes Addysg a'r llall ym maes Gwasanaethau Plant.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo unrhyw newidiadau i dâl Uwch Swyddogion. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig i strwythur yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn dilyn adolygiad o rôl Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Phlant ac yn ceisio'r gymeradwyaeth honno. Cyflwynwyd a thrafodwyd hyn mewn cyfarfod o'r Uwch Banel Cydnabyddiaeth Ariannol ar 22 Ebrill 2021.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Yn unog ag argymhelliad yr Uwch Banel, bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo lefel y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y swyddi Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phennaeth Gwasanaethau Plant yn unol ag ailwerthusiad Grŵp Kornferry Hay.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Cefndir

4.1.1 Ym mis Tachwedd 2014 cynhaliwyd adolygiad o'r Tîm Uwch Reoli a arweiniodd at gyfuno'r Gwasanaethau Addysg a'r Gwasanaethau Phlant. Gwnaed y penderfyniad yn seiliedig yn bennaf ar resymau gwasanaeth ac ariannol - yn benodol, y ffaith fod y ddau wasanaeth yn aml yn gweithio gyda'r un plant a'u teuluoedd. Er bod cyngor arall bryd hynny wedi cyfuno'r ddwy swyddogaeth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) maent bellach wedi mynd yn ôl i'r drefn o fod â dau Bennaeth Gwasanaeth.

4.1.2 Ar ôl yr adolygiad yn 2014 cyfunwyd y ddau wasanaeth o dan arweinyddiaeth y Pennaeth Addysg ar y pryd, a datblygodd i fod yn wasanaeth llwyddiannus fel y tystiodd adolygiad Estyn.

4.1.3 Fodd bynnag, cydnabuwyd bod hon yn dasg aruthrol a bod y gwasanaeth yn un o'r mwyaf arwyddocaol ac uchaf ei risg a ddarperir gan y Cyngor. Roedd y Cyngor yn hynod o ffodus fod gan y Pennaeth Addysg ar y pryd ddiddordeb mewn Gwasanaethau Plant ac yn fodlon cymryd yr her o arwain gwasanaeth cyfunol.

4.2. Adolygiad

4.2.1 Pan ymddiswyddodd y Pennaeth Gwasanaeth yn 2020 roedd pryderon ynghylch y tebygolrwydd o allu recriwtio Pennaeth ar y Gwasanaethau Cyfunol ar y raddfa gyflog bresennol. Mae'r tabl yn Atodiad A yn dangos y graddfeydd cymharol ar draws Cymru a hefyd awdurdodau lleol Lloegr. Hyd y bu modd i swyddogion ei ddarganfod, nid oes unrhyw rolau Gwasanaethau Addysg a Phlant cyfunol eraill yng Nghymru ac o'r wybodaeth a gafwyd mae cyflogau Penaethiaid Addysg a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant yr un fath neu'n uwch na'r cyflog y mae'r awdurdod hwn yn ei dalu ar gyfer y swydd gyfunol.

4.2.2 Ystyriaeth arall yw bod y rôl hon hefyd yn cynnwys swyddogaeth Swyddog Addysg Statudol sy'n cyfyngu ymhellach ar ddarpar ymgeiswyr, gan fod y rhain yn debygol o fod yn Benaethiaid Ysgolion sydd mewn rhai achosion yn cael cyflog uwch na'r cyflog ar gyfer y rôl Pennaeth Gwasanaeth.

4.2.3 Am y rhesymau hyn teimlwyd bryd hynny na fyddai'n bosibl llenwi'r swydd wag yn ddidrafferth ac y byddai cyfnod adolygu yn briodol er mwyn ystyried opsiynau eraill.

4.2.4 Roedd yr adolygiad yn cynnwys barn cyrff allanol sy'n rhyngweithio'n agos â'r gwasanaethau, y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Penaethiaid Gwasanaeth interim a'r staff o lwyddiant y trefniadau yn ystod y cyfnod interim.

4.2.5 Yn gryno, mae'r trefniadau interim wedi gweithio'n dda. Mae'r ddau Bennaeth dros dro wedi rheoli dwy ran y gwasanaeth ar y cyd ac mae hyn wedi cynyddu gwytnwch ac wedi rhoi sefydlogrwydd i staff a defnyddwyr gwasanaeth. Mae cyd-gyfarfodydd Timau Rheoli wedi parhau wedi'u cadeirio naill ai gan un o'r Penaethiaid Gwasanaeth neu gan y ddau yn dibynnu ar eu hargaeledd.

4.2.6 Gan fod gwasanaethau eu hunain wedi parhau i weithio fel un, ni fu unrhyw effaith andwyol ar ddarpariaeth gwasanaeth.

4.2.7 Cafwyd adborth allanol cadarnhaol ac yn wir mae'r gwasanaeth wedi cael ei ganmol yn fawr yn ystod y pandemig a'i amlygu fel esiampl i awdurdodau eraill. Drwy fod â dau bennaeth mae Sir Dinbych yn gallu rhoi mewnbwn mwy penodol ac ar y lefel gywir yn y meysydd hyn.

4.2.8 Nid sut y mae'r gwasanaeth yn gweithio ar draws dau wahanol faes sy'n peri anhawster ond yn hytrach graddfa a maint rôl gyfunol y Pennaeth Gwasanaeth. Er ei bod yn hanfodol bwysig bod y rôl yn un strategol, i lwyddo mae'n rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth allu cynnal lefel o gysylltedd gweithredol - rhywbeth a godwyd yn ystod yr adolygiad gwreiddiol a arweiniodd at gyfuno'r gwasanaethau Addysg a Phlant, ond yn ymarferol nid yw hyn yn bosibl ar draws dau faes mor eang.

4.3. Casgliad

4.3.1 Ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i'r adolygiad, phenderfynir mai'r strwythur mwyaf priodol ar gyfer y gwasanaeth fyddai cadw un gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Addysg a Phlant ond recriwtio dau Bennaeth Gwasanaeth.. Mae angen edrych ymhellach ar sut y gellir gwireddu hyn yn ymarferol gan nad yw'n gysyniad a ddefnyddiwyd gan Sir Ddinbych o'r blaen. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r ddau Bennaeth Gwasanaeth y cael eu penodi yn seiliedig ar un swydd ddisgrifiad cyffredin ond y byddai gan un arbenigedd ym maes Addysg a'r llall ym maes Plant. Mae hyn yn seiliedig ar yr egwyddor mai un gwasanaeth yw'r ymdriniaeth gywir fel sydd wedi'i brofi yn Sir Ddinbych ers i'r trefniant hwn gael ei sefydlu, ond yng ngoleuni maint ac ehangder y swydd Pennaeth Gwasanaeth cyfunol, ei bod yn annhebygol iawn y gallai'r awdurdod benodi rhywun â'r profiad a'r cymwysterau priodol ar y raddfa gyflog a gynigir. Mae'n bosibl cynnig taliad atodol ar sail y farchnad, fodd bynnag dim ond ateb byrdymor fyddai hyn a byddai'n arwain at anghydraddoldeb yn yr Uwch Dîm Rheoli a'r posibilrwydd o hawliadau cyflogau cyfartal.

4.3.2 Mae'r 10 mis diwethaf wedi dangos ei bod yn bosibl i ddau bennaeth arwain un gwasanaeth. Mae hyn wedi digwydd yn llwyddiannus yn ystod cyfnod anodd dros ben. Mae'r ddau Bennaeth Dros dro yn dweud bod y gefnogaeth y maent wedi'i chael gan y naill a'r llall wedi bod yn amhrisiadwy ac mae hyn yn amlwg yn cynnig gwytnwch yn un o feysydd risg uchaf y Cyngor.

4.3.3 Mae'r cysyniad hwn yn un newydd i'r Cyngor ac yn un nad yw Sir Ddinbych wedi rhoi cynnig arno o'r blaen. Sut bynnag, mae manteision cyd-wasanaeth yn llawer uwch na'r risg posibl.

4.4 **Gwerthusiad**

4.4.1 Mae'r proffil swydd Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant yn awr wedi'i rannu'n ddau - Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phennaeth Gwasanaethau Addysg ac wedi'u gwerthuso gan Grŵp KornFerry Hay. Grŵp Hay sy'n rhedeg y cynllun gwerthuso swyddi a fabwysiadwyd gan y Cyngor i werthuso swyddi pob uwch swyddog. Mae copi o'r portffolio a ddarparwyd ar gyfer y gwerthusiad ynghlwm yn Atodiad B.

4.4.2 Adolygwyd y wybodaeth gan Grŵp KornFerrry Hay a werthusodd y ddwy swydd fel a ganlyn:

Graddfeydd wedi'u diweddaru 2020 a 2021														
	Gwybodaeth a Gallu				Datrys problemau				Atebolrwydd				Cyfanswm	Proffil
Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant (Gwerthusiad KF 2020)	F	ii.	3	460	F	4	(50)	230	F-	3	P	350	1040	A3
Pennaeth Gwasanaethau Addysg (gwerthusiad KF 2021)	F	ii.	3	400	(e)	4	(50)	200	(e)	3-	P	264	864	A2
Pennaeth Gwasanaethau Plant (Gwerthusiad KF 2021)	F	ii.	3	400	(e)	4	(50)	200	(e)	3	P	304	904	A3

Mae copi o'u hadroddiad ynghlwm yn Atodiad C.

4.4.3 Yr amrediad pwyntiau ar gyfer SLT2 yw 901 - 1100 felly mae'r ddwy swydd yn disgyn o fewn graddfa Pennaeth Gwasanaeth SLT2 fel y dangosir isod:

		Sgôr Gwerthuso Hay
SLT4 (Prif Weithredwr)	£136,312	**1401 ac uwch**
	£134,268	
	£132,254	
SLT3 (Cyfarwyddwyr)		**1101-1400**
	£110,670	
	£109,010	
	£107,374	
SLT2 (Pennaeth Gwasanaeth)		**801 - 1100**
	£90,750	
	£89,387	
	£88,045	
SLT1 (Pennaeth Gwasanaeth)		**Sgôr o hyd at 800**
	£74,414	
	£73,298	
	£72,199	

5 Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae bod â'r Strwythur Arweinyddiaeth cywir ar gyfer y Gwasanaethau Addysg a Phlant yn ogystal â’r Cyngor ehangach yn hanfodol i sicrhau cyflawniad y Blaenoriaethau Corfforaethol a darpariaeth llwyddiannus gwasanaethau dydd i ddydd gweithredol.I gefnogi hyn mae’n bwysig bod ag agwedd deg a thryloyw tuag at gyflogau Uwch Arweinwyr gan y bydd hyn yn cyfrannu at recriwtio a dal gafael ar arweinwyr o’r safon uchaf yn ogystal a gweithlu llawn cymhelliant a fydd yn ei dro yn cyfrannu at wireddu'r blaenoriaethau corfforaethol.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Cyflog presennol Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant yw £88,045 - £90,750 (ynghyd ag argostau). Drwy rannu’r rôl yn ddwy swydd wedi’u gwerthuso fel SLT2, bydd hyn y dyblu’r costau i £176,090.00 - £181,500.00 (ynghyd ag argostau). Fodd bynnag byddai hyn yn cael ei wrthbwyso gan newidiadau yn haen nesaf y strwythur sy’n golygu costau o oddeutu £60,000.

7 Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1 Ni chwblhawyd Asesiad o’r Effaith ar Les oherwydd bod y newid wedi’i gwmpasu o fewn yr Asesiad o'r Effaith ar Les cysylltiedig â Chyflogau Uwch Swyddogion.

8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Trafodwyd yr adolygiad cychwynnol gyda’r Aelod Arweiniol a’i gyflwyno yng Nghyfarfod Briffio’r Cabinet ym mis Ionawr. Fe'i cyflwynwyd hefyd i'r Uwch Banel Arweinyddiaeth ar 22 Ebrill 2021.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Bydd oblygiadau ariannol yr adroddiad hwn, a nodir yn fras yn Adran 6, yn cael eu hystyried yn fanwl. Mae'n amlwg y bydd yr union amseriad unrhyw bwysau net o’r newidiadau yn cael ei effeithio gan ganlyniadau ymarferion recriwtio a bydd yn cael ei gynnwys ym mhroses y gyllideb ar gyfer 2022/23. Byddai angen ymdrin ag unrhyw bwysau net yn ystod y flwyddyn o'r arian wrth gefn presennol.

10 Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r risgiau wedi eu hamlygu uchod ac yn cynnwys:

10.1.1 Mae'r math hwn o drefniant yn anarferol ac felly i raddau yn anhysbys o ran ei lwyddiant/effaith.

10.1.2 Llwyddiant yn ddibynnol ar allu'r ddau bennaeth gwasanaeth i weithio'n dda gyda'i gilydd ac i gytuno ar y blaenoriaethau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth ar y cyd.

11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae paragraff 6 Rhan 2 Atodlen 3 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd, yn nodi bod yn rhaid i benderfyniad i bennu lefel tâl, neu wneud unrhyw newid i lefel tâl Prif Swyddog gael ei wneud gan y Cyngor Llawn.